

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government
TACLO TIPIO CYMRU
ER SYLW POB LANDLORD
DYCHMYGWCH PETAI RYWUN YN GADAEL EICH GWASTRAFF BUSNES FAN HYN
#DIMMWY OESGUSODION SBWRIEL
@FtAW
/FtAWales
Mae'r poster hwn hefyd ar gael yn Saesneg.

# OEDDECH CHI'N GWYBOD?

Fel landlord, mae eich eiddo ar rent yn cael ei ystyried yn fusnes. Mae unrhyw ddeunyddiau gwastraff sy'n dod o glirio neu gynnal a chadw eich eiddo yn cael eu dosbarthu fel gwastraff busnes. Rhaid cael gwared ar y deunyddiau hyn yn ddiogel, yn gyfreithlon ac yn gyfrifol.

Rhaid i fusnesau gwblhau dogfennaeth gwastraff pan drosglwyddir gwastraff i berson arall. Rhaid cadw dogfennaeth am 2 flynedd a gall methu â chynhyrchu arwain at **ddirwy.**

## Rhaid i chi ddilyn eich Dyletswydd Gofal Gwastraff.

### Dyma sut y gallwch chi helpu i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon...

- Cynghorwch eich tenant i gael gwared ar eu gwastraff yn brydlon ac yn gyfrifol fel na fydd yn cronni
- Wrth glirio a chynnal a chadw eich eiddo, os ydych yn cludo'r gwastraff i safle awdurdodedig, rhaid i chi gofrestru fel 'cludydd gwastraff'
- Os ydych chi'n defnyddio gwasanaeth gwaredu gwastraff, gwiriwch bob amser eu bod yn gludwr gwastraff cofrestredig sydd wedi'i restru ar gofrestr Cyfoeth Naturiol Cymru a gofynnwch ble maen nhw'n mynd â'ch gwastraff
- Os na fyddwch yn gwneud y gwiriadau angenrheidiol hyn a bod eich gwastraff yn cael ei dipio'n anghyfreithlon, fe allech chi wynebu dirwy ddiderfyn

**Rhaid i ddogfennaeth gwastraff, fel nodyn trosglwyddo, ddod gydag unrhyw wastraff rydych chi'n ei waredu. Gall hwn fod yn gopi caled neu gellir ei ddangos trwy'r System Dyletswydd Gofal Electronig (EDoC). I gael mwy o wybodaeth, ewch i'r adran gyngor ar ein gwefan:**

**taclotipiocymru.org**

GALLWCH WIRIO BOD RHYWUN YN GLUDWR GWASTRAFF COFRESTREDIG TRWY YMWELD Â CYFOETHNATURIOL.CYMRU/GWIRIWCHDRWYDDEDGWASTRAFF NEU TRWY FFONIO 0300 065 3000